

Asesiad risg iechyd planhigion safle-benodol

TAFLEN GWYBODAETH

Beth yw asesiad risg?

- Mae asesiad risg yn broses lle rydych chi'n adnabod peryglon yn eich busnes.
- Bydd angen i chi neilltuo lefelau i bob un o'r peryglon, yn seiliedig ar eu heffaith ar y busnes.
- Nodwch yr effaith ac yna'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd gan ddefnyddio graddfa pum pwynt o un i bump. Mae un yn fach a phump yn fawr.
- Yna byddwch yn penderfynu ar y camau i'w cymryd i liniaru'r risgiau hyn.
- Efallai y bydd angen cymryd rhywfaint o gamau fel rhwymedigaeth statudol.



Tasgau sy'n ymwneud ag asesu risg

Bydd eich asesiad risg yn cael ei lunio fesul cam o'r dilyniant canlynol o weithgareddau.

1. Adnabod ffiniau eich safle
2. Rhestru'r gweithrediadau ar eich safle
3. Rhestru'r planhigion a'r deunyddiau rydych chi'n eu defnyddio
4. Rhestru'r pathogenau, planhigion pla a phlanhigion lletyol
5. Mapio llwybrau plâu a phathogenau
6. Nodi'r mesurau rheoli
7. Cwblhau asesiad risg safle-benodol
8. Gweithredu mesurau rheoli
9. Monitro risgiau a'u rheolaethau

Beth yw risgiau heb eu lliniaru a risgiau wedi'u lliniaru?

- Gelwir y risgiau a nodwyd yn ystod asesu cyn gweithredu yn risgiau heb eu lliniaru.
- Mae angen i chi benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd i leihau lefelau risg.
- Ar ôl cymryd y camau angenrheidiol, mae angen ailasesu lefelau risg.
- Gelwir hyn yn risgiau wedi'u lliniaru.



Beth yw pathogenau?

- Mae pathogen yn organeb sy'n achosi afiechydon
- Gallai fod yn ffyngau, molau dŵr, bacteria, firysau neu mycoplasmas
- Fe'u gelwir fel arfer gan eu henwau Lladin. E.e. *Phytophthora infestans*

Beth yw afiechyd?

- Mae afiechydon yn gasgliadau o symptomau a achosir gan bathogenau e.e. *Phytophthora infestans*
- Rhoddir enw cyffredin iddo fel arfer. E.e. malltod hwyr tatws.

Beth yw plâu?

- Mae pla yn anifail e.e. pryfyn, cnofil neu nematod sy'n achosi difrod i blanhigion.
- Yn nogfennau'r llywodraeth, mae'r term plâu a phathogenau yn aml yn cael eu cyfnewid.



Plâu cwarantîn a d-gwarantîn ?

- Pla neu bathogen cwarantîn yw un nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr neu nad yw wedi'i ddsbarthu'n eang.
- Mae'n destun rheolaethau statudol fel rheolaethau a mesurau mewnforio sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y rhai a geir ym Mhrydain Fawr.
- Cyfeirir atynt hefyd fel plâu hysbysadwy.
- Mae pla di-gwarantîn yn un a allai fod ym Mhrydain Fawr ond y gallai ei bresenoldeb effeithio ar blanhigion i'w plannu â haint lefel effaith economaidd annerbyniol.
- Mae mesurau rheoli ar gael ac, yn y rhan fwyaf o achosion, fe'u cynhwysir mewn deddfwriaeth.
- Weithiau fe'u gelwir yn blâu anhysbysadwy.
- Fe welwch ragor o wybodaeth ar y daenlen mynegai plâu ac afiechydon yn yr adnoddau ac yn yr E-ddysgu ar-lein penodol ynghylch Garddwriaeth

Beth yw llwybrau plâu?

Llwybrau plâu yw ardaloedd neu safleoedd ar y safle lle mae plâu a phathogenau'n codi ac yna'n ymledu ynddo.

Dyma rai enghreifftiau o sut y gall plâu a phathogenau gyrraedd:

Esgidiau a dillad ymwelwyr

Peiriannau wedi'u mewnforio neu eu prynu i mewn

Planhigion, priddoedd a chyfryngau tyfu lle mae ynghlwm wrth y planhigyn neu'n dod i mewn trwy ffrwythau a llysiau.

Blodau wedi torri, dail a changhennau

Cynhyrchion pren a phren

Cynhyrchion eraill sy'n seiliedig ar blanhigion fel paledi a rhisgl

Gallant hefyd gyrraedd yn naturiol trwy'r gwynt, aerosolau neu drwy gyrsiau dŵr.

Tabl asesu risg

Ar ôl i chi gasglu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer eich asesiad iechyd planhigion sy'n benodol i'r safle, bydd angen i chi ei chynnwys mewn tabl fel y dangosir isod.

Gallwch addasu'r tabl hwn yn ôl yr angen.

Enw'r risg	Disgrifiad	Graddfa'r effaith	Graddfa'r tebygolrwydd	Lefel y risg heb ei lliniaru	Camau lliniaru	Graddfa'r effaith lliniaru	Graddfa'r tebygolrwydd lliniaru	Lefel y risg lliniaru

Matrics tebygolrwydd

Gallwch ddefnyddio'r matrics hwn (gyda graddfeydd tebygolrwydd) i ddod o hyd i lefel y risg (wedi'i lliniaru / heb ei lliniaru).

Effaith	Anarwyddocaol	Bach	Cymedrol	Mawr	Difrifol
Tebygolrwydd					
Tebygol iawn	Canolig	Uchel	Uchel iawn	Eithafol	Eithafol
Tebygol	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel iawn	Eithafol
Cymedrol	Isel	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Annhebygol	Isel iawn	Isel	Canolig	Canolig	Uchel
Annhebygol iawn	Isel iawn	Isel iawn	Isel	Canolig	Canolig



Adnoddau

<https://planthealthportal.defra.gov.uk/pests-and-diseases/uk-plant-health-risk-register/>

<https://planthealthportal.defra.gov.uk/assets/uploads/How-To-Use-Document-v2.pdf>

Gwybodaeth Allweddol

Mae cael eich asesiad risg safle-benodol ar gyfer plâu ac afiechydon yn eich helpu i

- Gynllunio eich mesurau bioddiogelwch eich hun
- Cynllunio eich arferion hylendid a hyfforddi eich staff yn y rhai hynny
- Sicrhau bod cyfrifoldebau ar y feithrinfa ar gyfer iechyd planhigion wedi'u dyrannu i unigolion
- Sicrhau eich bod wedi dogfennu eich mesurau rheoli
- Orlhain yr hyn yr ydych wedi'i wneud mewn blynyddoedd olynol a gwerthuso llwyddiant dulliau rheoli
- Gwneud addasiadau angenrheidiol ar ddiwedd yr asesiad



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE